
# Strategaeth Iaith Gymraeg

# (2024 – 2029)

**Paratowyd yn unol â gofynion**
**Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015**
**Dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011**

*This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*



## Cynnwys Tudalen


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Cynnydd 2017 – 2022 | |
| Cefndir | 1 |
| Proffil Ieithyddol | 3 |
| Sut? | 5 |
| Meysydd Ffocws | |
| - Deddfwriaeth a Pholisïau | |
| - Addysg | |
| - Y Gymuned | |
| - Gwasanaethau | |
| - Y Gweithle | |
| Mesur Llwyddiant | 11 |
| Targedau Strategol | 12 |

# Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i Gyngor Torfaen ddatblygu Strategaeth Gymraeg Pum Mlynedd yn unol â gofynion Safon Iaith Gymraeg 145 a 146 o dan Reoliadau Safonau Iaith Cymru (Rhif 1) 2015. Nod y strategaeth yw nodi camau gweithredu ar sut yr ydym yn bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg, cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a defnydd y Gymraeg yn y fwrdeistref.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Waith newydd ar gyfer Cymraeg 2050: https://llyw.cymru/cymraeg-2050-ein-cynllun-ar-gyfer-2021-i-2026. Nod y strategaeth genedlaethol yw cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu defnydd dyddiol o'r Gymraeg erbyn 2050.

Yn dilyn trafodaethau gyda sefydliadau partner allweddol, y cyhoedd ac adrannau mewnol y Cyngor, rydym wedi llunio strategaeth cryf a chadarn er mwyn hybu’r Gymraeg yn y fwrdeistref.

# Cynnydd 2017 – 2022

Oherwydd COVID-19 mae nifer o'n targedau o fewn ein Strategaeth blaenorol wedi eu haddasu neu dod i ben. Serch hynny, mae nifer o weithgareddau, digwyddiadau a phenderfyniadau wedi llwyddo dros y pum mlynedd diwethaf ac gweithio tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref.

Dyma rhai o'n llwyddiannau:

- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Torfaen 2022 -2032 wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru
- Cyhoeddi llyfryn hyrwyddo addysg Gymraeg – "Dechreuwch y Daith Ddwyieithog"
- Ehangu Ysgol Gymraeg Gwynllyw i fod yn ysgol 3-19 i ateb y galw am addysg Gymraeg presennol a'r dyfodol
- Gweithio'n agos gyda Mudiad Meithrin i greu Meithrin Gymraeg newydd yn Ysgol Gynradd Greenmeadow
- Ehangu cyrsiau dysgu Cymraeg i Staff drwy gymeradwyo "Say Something in Welsh" a rhyddhau staff i fynychu cyrsiau preswyl gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Sefydlu gŵyl "Torf-hwyl" mewn partneriaeth Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi drwy weithgareddau a cherddoriaeth Cymreig.
- Nifer y bobl (dros 3 oed) sy'n byw yn Nhorfaen ac yn gallu siarad Cymraeg i 8.24% (targed 15%)
- Cynyddu nifer o staff gyda sgiliau Cymraeg o 0.51% (15) yn 2017 i 14% (251) yn 2021
- Sefydlu Uned Drochi Iaith Gymraeg newydd – Carreg Lam

# Cefndir

Paratowyd yr ail strategaeth pum mlynedd ddrafft hon gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen fel y fethodoleg ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r iaith mewn Cymunedau o fewn y Fwrdeistref a hynny mewn cydymffurfiad â Safonau'r Iaith Gymraeg.

Gwerthuswyd canlyniadau o'r strategaeth gyntaf (2017 – 2022) i lunio'r strategaeth olynol hon. Nodir fod sawl maes ble nad ydym wedi gallu symud ymlaen fel a oeddwn yn gobeithio oherwydd y pandemig a ffactorau eraill.

Mae ein dull o weithredu, fel y nodir yn y ddogfen hon, wedi'i strwythuro o amgylch pum maes ffocws sy'n adlewyrchu rhaglen waith Llywodraeth Cymru ar strategaeth Cymraeg 2050. Mae'r strategaeth yn nodi ein blaenoriaethau strategol o dan bob un o'r meysydd hyn, ac yn amlygu'r newidiadau y bydd angen inni weithredu.

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei ddyletswydd i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, ond hefyd cydweithio i hyrwyddo ac annog defnydd ehangach o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd cymdeithasol ac economaidd Torfaen. Nid yw'r strategaeth hon ar gyfer un sefydliad unigol a bydd cyflawni'r strategaeth, felly, yn dibynnu ar gydweithio gyda partneriaid strategol. Byddwn yn gweithio gyda'r fforwm iaith lleol, drwy Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy i hwyluso hyn.

Bydd cefnogi pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau i ddysgu Cymraeg a theimlo'n rhydd i ddefnyddio'r iaith hefyd yn hanfodol i lwyddiant y strategaeth hon. Yn ystod y blynyddoedd diweddaf gwelwyd twf cyson yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd system addysg a 'Chynllun y Gymraeg mewn Addysg' y Cyngor yn chwarae rhan allweddol o ran sicrhau twf yr iaith yn y dyfodol wrth i ni anelu at gynyddu nifer y plant - a rhieni - sy'n cael y cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg, a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu allan i giatiau'r ysgol.

Bydd y cyswllt rhwng y ddogfen hon a'r Strategaeth Cymraeg Mewn Addysg yn hanfodol er mwyn cyrraedd unrhyw gynnydd mewn siaradwyr Cymraeg neu cyrraedd y targedau a nodir.

# Proffil Ieithyddol

Yn ôl cyfrifiad 2021, dywedodd 8.24% o drigolion Torfaen eu bod yn medru siarad Cymraeg.  Mae demograffeg yr ardal yn wahanol iawn i ardaloedd Cymraeg traddodiadol yr iaith Gymraeg h.y. Gogledd a De Orllewin Cymru. Dengys y tabl isod ganran a nifer y preswylwyr ymhob Ward (yn Nhorfaen) sydd yn medru siarad Cymraeg.

| **Ward** | **Poblogaeth (3+)** | **Medru Siarad Cymraeg (Nifer.)** | **Medru Siarad Cymraeg (%)** |
|---|---|---|---|
| Abersychan | 6475 | 700 | 10.81% |
| Blaenafon | 5817 | 538 | 9.25% |
| Coed Efa | 2359 | 191 | 8.10% |
| Croesyceiliog | 4999 | 374 | 7.48% |
| Fairwater (Torfaen) | 4882 | 421 | 8.62% |
| Dôl Werdd | 2684 | 175 | 6.52% |
| Llanfrechfa a Phonthir | 1984 | 167 | 8.42% |
| Llantarnam | 6275 | 487 | 7.76% |
| Llanyrafon | 2436 | 163 | 6.69% |
| Y Dafarn Newydd | 5747 | 365 | 6.35% |
| Panteg | 7285 | 662 | 9.09% |
| Pontnewydd | 6894 | 623 | 9.04% |
| Pontnewynydd a Choed Llwyd | 3644 | 304 | 8.34% |
| Pont-y-pŵl | 7206 | 552 | 7.66% |
| Sain Derfel | 4180 | 373 | 8.92% |
| Trefddyn a Phen-y-garn | 5117 | 385 | 7.52% |
| Dau Loc | 5761 | 434 | 7.53% |
| Cwmbrân Uchaf | 5630 | 449 | 7.98% |
| | **89375** | **7363** | **8.24%** |


Mae'r tabl isod yn nodi cymhariaeth rhwng nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg Cyfrifiadau rhwng 1981 a 2021


| | 1981 | 1991 | 2001 | 2011 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| TORFAEN | 2,144 (2.49%) | 2,119 (4.35%) | 9,425 (11.10%) | 8,641 (9.84%) | 7,366 (8.24%) |

Bydd y strategaeth hon yn seiliedig ar ddangosyddion perfformiad allweddol lleol a chenedlaethol yr iaith Gymraeg a chaiff ei monitro'n unol â hynny. Mae'r Dangosyddion Perfformiad wedi eu cynnwys yn adran Targedau Strategol yn y strategaeth hon. Bydd recriwtio a chadw staff i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig, yn yr un modd ag y bydd cydnabod yr iaith fel sgil yn y gweithle. Mae gan Gyngor Torfaen, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, partneriaid allweddol, ac unigolion, ran hanfodol i'w chwarae wrth hybu statws yr iaith Gymraeg ac wrth gynnal ac ehangu defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd o fewn y sir. Trwy'r strategaeth hon, mae aelodau o Gyngor Torfaen yn bwriadu cefnogi'r ymdrechion rhagorol sydd eisoes yn amlwg ledled y sir, yn ogystal â nodi ffyrdd y gall y Cyngor adeiladu ymhellach ar y gwaith hwnnw o fewn cwmpas ein dylanwad ein hunain.

Dangosodd Cyfrifiad 2021, o gymharu â Chyfrifiad 2011, ostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg er bod Torfaen yn gartref i'r ysgol uwchradd ranbarthol cyfrwng Cymraeg (Ysgol Gyfun Gwynllyw) a bod pedwerydd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi agor fel rhan o ddatblygiad Ysgol Gyfun Gwynllyw. Gall hyn fod am nad yw'r Cyfrifiad yn canfod lefelau cymhwysedd yn y Gymraeg er fod rhai yn tybio mai y Pandemig oedd wedi amharu ar y canlyniadau.

Wrth gymharu y gostyngiad mewn siaradwyr Cymraeg fesul oedran, gwelir fod y newid mwyaf mewn pobl ifanc 3 a 15 oed.  Gwelir o'r ddau dabl isod fod y sefyllfa'n debyg ar draws Cymru gyfan.






Dylid nodi fod yr arolwg o ddefnydd yr iaith Gymraeg a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg (Arolwg Defnydd o'r Gymraeg) yn ystod 2021 - 2022 yn nodi fod y data a gasglwyd ddim digon cadarn i'w gyhoeddi ar gyfer Torfaen. Mae'r arolwg hwn nawr yn rhan o arolwg Cenedlaethol Cymru.

Ffynhonell arall o ddata yw'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) y Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy'n dangos bod y nifer o siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yn agosach at 17.6% yn ystod 2021-2022, mae hyn yn seiliedig ar ymatebion 772 o drigolion yn cael eu harolygu allan o'r 90,000 posib. Felly, ni allwn ddefnyddio hwn fel data dibynadwy wrth edrych ar gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal.

Mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) hefyd yn cynnwys cwestiwn i bobl a'u gallu yn Gymraeg a pha mor aml maen nhw'n siarad yr iaith. Tra bod llywodraeth Cymru yn glir y dylid defnyddio data cyfrifiad i fesur nifer y siaradwyr Cymru, Mae'n ddefnyddiol ystyried yr APB i edrych ar dueddiadau yn yr iaith Gymraeg rhwng y Cyfrifiadau swyddogol. Yn hanesyddol cofnodir bod llawer mwy o bobl yn gallu siarad Cymraeg yn yr APB nag yn y Cyfrifiad, fel y dangosir yn y tabl canlynol:

| | **2015-16** | **2016-17** | **2017-18** | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Torfaen** | 16.0 | 18.3 | 19.0 | 17.7 | 18.0 | 18.5 | 17.6 |
| **Cyfartaledd Cymru** | 27.3 | 28.8 | 29.0 | 29.8 | 28.4 | 29.1 | 29.5 |

# Sut?

Yn yr adran hon byddwn yn edrych ar bum maes ffocws sydd yn anelu i’n helpu i gyflawni ein targedau strategol, ac awgrymu nifer o gamau i gyflawni ein gweledigaeth.

1) Deddfwriaeth a Pholisi
2) Addysg
3) Y Gymuned
4) Gwasanaethau
5) Y Gweithle

Bydd y rhain yn ein helpu i gyflawni’r canlyniadau a ganlyn:

- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan ddinasyddion sydd â sgiliau iaith Gymraeg
- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu presenoldeb gweledol yr iaith Gymraeg
- Hyrwyddo Diwylliant Cymreig

## 1) **Deddfwriaeth a Pholisi**

Er bod y strategaeth yn ofyniad statudol i'r Cyngor dan Reoliadau Safonau Iaith Gymraeg (Rhif 1) 2015, mae'n adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei gwblhau yn Nhorfaen i gwrdd ag anghenion y gymuned.

Mae'r adran a ganlyn yn nodi'r fframwaith rheoleiddio, y mae'r strategaeth hon yn ategu ati:

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015
Mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i gydymffurfio â'r safonau ar gyfer y Gymraeg sy'n egluro sut y dylai sefydliadau ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r dyletswyddau sy'n dod o Fesur y Gymraeg yn golygu na ddylai sefydliadau drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
Mae'r Ddeddf yn anelu i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y Ddeddf yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus feddwl am effeithiau tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Un o'r saith nod Lles a restrir yn y Ddeddf yw

"Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu."

Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru: Cymraeg 2050 : Miliwn o Siaradwyr

Mae strategaeth hirdymor iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru ar gyfer cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, sef dwblu'r nifer presenol, wedi ei hanelu at hybu a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn bywyd bob dydd a'i gweledigaeth yw gweld y Gymraeg yn ffynnu yng Nghymru. Bydd ein strategaeth yn ategu at flaenoriaethau gweledigaeth Llywodraeth Cymru ac yn gweithio tuag at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Nhorfaen.

Llywodraeth Cymru: Mwy na geiriau
Y fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol. Sicrhau canlyniadau lles cadarnhaol i unigolion, rhywbeth sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014. Mae'r Codau Ymarfer dan y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei hadeiladu i mewn i gynllunio a darparu gwasanaethau a'r gwasanaeth "Cynnig Gweithredol" sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg heb iddynt orfod gofyn am wasanaeth yn Gymraeg.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen: Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg
Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) (2013) yn gosod gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (sydd mas i ymgynghoriad ar hyn o bryd). Mae'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i gymeradwyo'r Cynllun a gyflwynwyd, cymeradwyo'r Cynllun gydag addasiadau neu wrthod y Cynllun a gofyn i'r awdurdod baratoi un arall. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar y targedau yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ac mae disgwyl i awdurdodau lleol adrodd yn flynyddol ar berfformiad yn erbyn y targedau hyn. Dylid mynd ati o oedran cynnar i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, ac mae gan ysgolion, cyfrwng Cymraeg a Saesneg rhan fawr i'w chwarae o ran cynhyrchu siaradwyr Cymraeg a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn Gymry. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a luniwyd gan Gyngor Torfaen yn hanfodol o ran llunio proffil ieithyddol Torfaen yn y byr dymor a'r dyfodol.

## 2) Addysg


Mae dysgu iaith yn ifanc yn allweddol i lwyddiant y strategaeth hon a heb ddigon o rieni sy'n dewis anfon eu plant drwy addysg cyfrwng Cymraeg, bydd yn cael effaith ar y nifer o weithwyr y dyfodol sy'n gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a throsglwyddo'r sgiliau hynny i'w plant.

Bydd yr ymgynghoriad yn targedu rhieni newydd i asesu dewis y rhieni fynd ati i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg, gorfodi manteision dwyieithrwydd a mynd i'r afael â rhai o'r rhwystrau y gall rhieni Saesneg eu hiaith eu hwynebu wrth anfon eu plentyn i ysgolion Categori 3.

Mae'r fwrdeistref yn gartref i 3 ysgol gynradd Gymraeg ac un ysgol uwchradd ranbarthol (3-18 oed). (Dalgylch Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd). Mae'r tabl isod yn dangos twf addysg cyfrwng Cymraeg dros y ddegawd ddiwethaf yn ogystal â rhagamcanu'r duedd hon dros hyd y strategaeth.


Mae'r niferoedd rhagamcanol yn seiliedig ar dueddiadau dewis y rhieni 2021, sy'n cael eu hadolygu'n flynyddol. Mae'r cyngor yn monitro'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn fanwl i sicrhau bod darpariaeth ddigonol i ateb y galw.


Dyma nifer y disgyblion mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn Nhorfaen.




Mae'r ffigurau rhagamcanol yn seiliedig ar gontinwwm y sefyllfa bresennol ac nid ydynt yn ymgorffori unrhyw fodd o hyrwyddo addysg ddwyieithog yn y Fwrdeistref.

Mae continwwm i fyfyrwyr mewn addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg, drwy ysgolion, addysg a phrifysgolion bellach yn hanfodol i sicrhau bod y sgiliau iaith yn cael eu cynnal a'i drosglwyddo i'r gweithle, drwy gefnogi y gwasanaethau Cymraeg a gynigir gan sefydliadau.






3) **Y Gymuned**

Oherwydd demograffeg yr ardal a dirywiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Nhorfaen / Gwent dros y ganrif ddiwethaf, mae'n bwysig bod y rhai sy'n meddu ar sgiliau iaith Gymraeg sef pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol, oedolion sy'n dysgu, mewnfudwyr o rannau eraill o Gymru a unrhyw gwsmer sy'n cysylltu â'r cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cael eu hannog i wneud hynny, a rhaid i ni sicrhau:

- Bod y gweithlu yn medru cyflenwi gofynion gwasanaethau iaith Gymraeg.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg wrth hysbysebu
- Hyrwyddo diwylliant Cymreig

Diwrnod Santes Dwynwen
25 Ionawr -
Nawdd sant y cariadon yng Nghymru

Dydd Gŵyl Dewis Sant
1 Mawrth
Nawdd sant Cymru

Eisteddfod yr Urdd
Hanner Tymor Sulgwyn
Gŵyl Ieuenctid Ddiwylliannol

Yr Eisteddfod Genedlaethol
Wythnos Gyntaf mis Awst
Gwyl Ddiwylliannol

Diwrnod Owain Glyndŵr
16 Awst
Dathlu bywyd a gwaith Tywysog brodorol olaf Cymru

Diwrnod Shw Mae
15 Hydref
Gweithgareddau Cenedlaethol i gyfarch a defnyddio’r iaith Gymraeg

- Cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg yn y gymuned ee Cwisiau, Cyngherddau, Twmpath, Nosweithiau Cymdeithasol

- Annog rhieni i drosglwyddo’u sgiliau i’w plant

Bydd yr ethos o “beidio â gorfod gofyn am wasanaeth yn Gymraeg” yn caniatáu’r defnydd o Gymraeg i fod yn ’Norm’ yn Ne Ddwyrain Cymru.

Mae Safon 145 o Hysbysiad Cydymffurfio Torfaen yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod targed (yn nhermau'r canran o siaradwyr) i gynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn y fwrdeistref.

Bydd Torfaen yn defnyddio nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021 a nifer presennol y disgyblion o fewn addysg cyfrwng Cymraeg fel man cychwyn ar gyfer y strategaeth hon.

Bydd y ganran a ragwelir yn cael ei osod gan dwf ysgolion a thueddiadau data'r cyfrifiad diwethaf, yn gysylltiedig â'r twf a ragwelir yn y boblogaeth.

## 4) Gwasanaethau

Credwn fod cael cefnogaeth y Gymuned Iaith Gymraeg yn Nhorfaen yn hanfodol i sicrhau bod y gwasanaethau yn cael eu defnyddio a bod pobl yn mynd ati yn eu niferoedd i fynychu digwyddiadau.

Bydd y Safonau Iaith Gymraeg yn sicrhau bod deunydd darllen a gwasanaethau'r Cyngor ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy ddarparu cefnogaeth a chyngor ymarferol i'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob gwasanaeth cyhoeddus sy'n gweithredu ym Mwrdeistref Torfaen, wrth i bob sector fynd trwy'r broses ddeddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg.

Er mwyn cyflwyno gwasanaethau yn Gymraeg, mae'n hanfodol bod gennym y staff sy'n meddu ar y sgiliau iaith angenrheidiol. Drwy gynnig hyfforddiant Iaith Gymraeg i pob aelodau o staff byddwn yn sicrhau bod y sgiliau a ymwybyddiaeth o’r iaith ar gael.

Drwy asesu sgiliau iaith y partneriaid allweddol byddwn mewn sefyllfa wybodus i ganfod gweithlu sy'n gallu helpu gydag ymholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a sefydliadau trydydd sector i annog y defnydd o'r Gymraeg a chynorthwyo gyda chyfieithiadau.

## 5) Y Gweithle

Dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 rhoddwyd statws swyddogol i'r iaith yng Nghymru, sy'n caniatáu i:

- Siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith wrth ddelio â'r Cyngor
- Sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg;
- Bod y defnydd o'r iaith Gymraeg yn ddilys;
- Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg;
- Rhyddid i bobl sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg ymhlith ei gilydd;

# Mesur Llwyddiant

Bydd y Cyngor, gyda chymorth y partneriaid allweddol, a gyda chefnogaeth y gymuned sy'n siarad Cymraeg yn Nhorfaen, yn anelu i gynyddu canran y siaradwyr Cymraeg o 8.24% yn 2021 (yn ôl Cyfrifiad 2021) i 17% erbyn 2027.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ffactorau hyn wrth gyrraedd y targed hwn:

- Canran y siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011 (Y Cyfrifiad)
- Nifer y plant sy'n gadael addysg cyfrwng Cymraeg ym mlynyddoedd 11 a 13
- Nifer y dysgwyr Cymraeg bob blwyddyn
- Twf ym mhoblogaeth y fwrdeistref
- Lleoedd mewn Ysgolion Cynradd ac Ysgolion Uwchradd Cyfrwng Cymraeg

Yn 2027, ni fydd data'r Cyfrifiad ar gael er mwyn cymharu'r targed a osodwyd a bydd yr adroddiad, yn unol â Safon 146 Rheoliadau Safonau Iaith Cymraeg (Rhif 1) 2015, yn cael ei gyhoeddi yn seiliedig ar Arolwg Cenedlaethol Cymru (Lywodraeth Cymru), a bydd yn cynnwys:

- I ba raddau yr ydym wedi dilyn y strategaeth a chyrraedd y targed a osodwyd
- Asesiad yn cynnwys y wybodaeth ganlynol -
    - nifer y siaradwyr Cymraeg yn Nhorfaen, ac oedran y siaradwyr hynny;
    - rhestr o weithgareddau a drefnwyd neu a ariannwyd yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

**Partneriaid Allweddol**

| | |
|---|---|
| 1. Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>2. Blynyddoedd Cynnar<br>3. Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus<br>4. Llais Busnes Torfaen<br>5. Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>6. Coleg Gwent<br>7. Cymraeg i Blant<br>8. Cymraeg i Oedolion Gwent<br>9. Cynghorau Tref a Chymunedol<br>10. Cynghorwyr<br>11. Gwasanaeth Addysg<br>12. Gwasanaeth Cyflawni Addysg | 13. Gwasanaeth Ieuenctid Torfaen<br>14. Ymddiriedolaeth Hamdden Torfaen<br>15. Gyrfa Cymru<br>16. Heddlu Gwent<br>17. Menter Iaith BGTM<br>18. Mudiad Meithrin<br>19. Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>20. Ysgolion Torfaen<br>21. Prifysgol De Cymru<br>22. Rhieni<br>23. Cynghrair Gwirfoddol Torfaen<br>24. Yr Urdd |

# Targed Strategol 1 – Deddfwriaeth a Pholisi

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweledigaeth** | Bod cyrff a gwasanaethau yn integreiddio'r Gymraeg i bolisïau a prosiectau. | **Canlyniad** | Mae’r iaith Gymraeg wedi’i hintegreiddio’n briodol mewn polisïau a strategaethau’r cyngor a’r holl bartneriaid. |

| Targedau | Llinell Sylfaen |
|---|---|
| - % a nifer y polisïau sydd wedi eu hasesu yn unol â gofynion Safonau 88-90. | |

| Blaenoriaethau Strategol |
|---|
| • Sicrhau bod y prosesau asesu effaith yn ystyried materion iaith Gymraeg yn unol â Safonau 88-90. |
| • Sicrhau bod arferion datblygu polisi’r cyngor a’n partneriaid yn cydymffurfio â'r Safonau Creu Polisi perthnasol. |
| • Sicrhau y cynhelir adolygiad o’r Strategaeth hon ar ôl 5 mlynedd fel sy'n ofynnol o dan Safon 146. |

| Statws Blaenoriaethu | | |
|---|---|---|
| **Tymor Byr: 1-2 flwyddyn** | **Tymor Canolig: 2-3 blwyddyn** | **Hirdymor: 3-4 blwyddyn** |

| Gweithred | | Statws |
|---|---|---|
| 1.1 | Sefydlu'r Gymraeg fel rhan annatod o weithdrefnau/ymarferion ymgynghori – effaith (yn unol a safonnau 88-93) ar y Gymraeg a sicrhau bod ymgynghori gyda sefydliadau a siaradwyr Cymraeg yn digwydd ymhob achos. | |
| 1.2 | Sicrhau bod pob Asesiad Effaith Integredig (AEI) yn ystyried effaith y cynnig ar y Gymraeg. | |
| 1.3 | Sicrhau fod cynigion wedi'u datblygu fel bod effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar<br>(a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | |
| 1.4 | Canfod y goblygiadau Cymraeg fel rhan annatod o gynllunio datblygiadau o ran ehangu tai ac addysg, yn enwedig o ran ysgolion cyfrwng Cymraeg. | |
| 1.5 | Annog partneriaid i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan annatod o ddatblygu ac asesu polisïau ac arferion arfaethedig. | |

# Targed Strategol 2 – Addysg

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweledigaeth** | Cynyddu nifer y plant sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng Cymraeg yn unol a'r CSCA (2022-2032) | **Canlyniad** | Mae mwy o blant a phobl ifanc yn siarad Cymraeg fel rhan o'u bywyd bob dydd, syn yn ei dro yn gwella eu rhagolygon gyrfa a gwerth yr iaith. |

| Targedau | Llinell Sylfaen |
|---|---|
| - % y plant sy'n mynychu meithrinfeydd Cymraeg mewn cymhariaeth a'r niferoedd mewn meithrinfeydd Saesneg.<br>- % y disgyblion Cynradd sy'n mynychu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>- % y disgyblion yn trosglwyddo o ysgolion cynradd Cymraeg i ysgolion uwchradd Cymraeg<br>- % y disgyblion Uwchradd (11-16) sy'n mynychu addysg statudol drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>- % y dysgwyr 11-19 oed sy'n astudio cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>- Niferoedd o blant a phobl ifanc sy'n mynychu gweithgareddau Cymraeg, megis digwyddiadau a drefnwyd gan bartneriaid allweddol. | |

| Blaenoriaethau Strategol |
|---|
| • Sicrhau bod y prosesau asesu effaith yn ystyried materion iaith Gymraeg yn unol â Safonau 88-90. |
| • Sicrhau bod arferion datblygu polisi'r cyngor yn cydymffurfio â'r Safonau Creu Polisi perthnasol. |
| • Sicrhau y cynhelir adolygiad o'r Strategaeth hon ar ôl 5 mlynedd fel sy'n ofynnol o dan Safon 146. |

| Statws Blaenoriaethu | | |
|---|---|---|
| **Tymor Byr: 1-2 flwyddyn** | **Tymor Canolig: 2-3 blwyddyn** | **Hirdymor: 3-4 blwyddyn** |

| Gweithred | | Statws |
|---|---|---|
| 2.1 | Defnyddio data cyfoes Digonolrwydd Gofal Plant i lywio’r adran cynllunio corfforaethol ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y dyfodol | |
| 2.2 | Cynyddu’r ddarpariaeth cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys dechrau’n deg) drwy ddatblygu perthynas waith agosach gyda’r Mudiad Meithrin a’r Tîm Blynyddoedd Cynnar | |
| 2.3 | Creu uned drochi cyfrwng Cymraeg bwrpasol i gefnogi ceisiadau pontio canol cyfnod, gan gynnwys adnoddau a hyfforddiant | |
| 2.4 | Datblygu cyfleuster CAAA cyfrwng Cymraeg pwrpasol ar gyfer dysgwyr Anhwylderau Sbectrwm Awtistig (ASD). | |
| 2.5 | Adolygu trefniadau/polisi trafnidiaeth yr Awdurdod Lleol | |
| 2.6 | Sefydlu dull effeithiol a chynaliadwy o gyfathrebu a marchnata gofal plant/addysg cyfrwng Cymraeg | |
| 2.7 | Sicrhau bod gan staff o fewn yr awdurdod lleol a phartneriaid y deunyddiau hyrwyddo i annog continwwm iaith a dysgu ar draws yr holl gamau cynnydd i hybu hyder dysgwyr a sicrwydd rhieni. | |
| 2.8 | Sicrhau bod holl staff yr Awdurdod Lleol yn cael cyfleoedd datblygiad proffesiynol addas o ran cyfathrebu manteision y cynnig Cymraeg yn effeithiol i rieni | |
| 2.9 | Sicrhau bod pob lleoliad cyfrwng Saesneg yn cydymffurfio â rheoliadau statudol ynghylch darpariaeth Cymraeg ail iaith. | |
| 2.10 | Cynyddu nifer y staff dysgu sy’n gallu darparu gwersi drwy gyfrwng y Gymraeg | |
| 2.11 | Y cynghorau a’r Fforymau Addysg Gymraeg i weithio mewn partneriaeth ranbarthol i gynllunio gweithgareddau cyfrwng Cymraeg a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. | |

## Targed Strategol 3 – Y Gymuned

| Gweledigaeth | Cynnydd yn y nifer o unigolion yn defnyddio'r Gymraeg o fewn eu hardaloedd ac yn ymwybodol o dreftadaeth y fwrdeistref | Canlyniad | Trigolion Torfaen yn dewis amrywiaeth o weithgareddau Cymraeg. Codi ymwybyddiaeth busnesau o'r cymorth sydd ar gael i hyrwyddo'r Gymraeg. |
|---|---|---|---|

| Targedau | Llinell Sylfaen |
|---|---|
| - Nifer o weithgareddau Cymraeg a drefnir ac a gynhaliwyd ar draws y fwrdeistref.<br>- Nifer o bobl sy'n mynychu digwyddiadau Cymraeg<br>- Nifer o fusnesau a gysylltir gyda nhw a'r cymorth a roddwyd | |

| Blaenoriaethau Strategol |
|---|
| • Cefnogi (mynychu) gweithgareddau cymunedol cyfrwng Cymraeg presennol a rhannu arfer da. |
| • Partneriaid i fynychu grwpiau cymunedol i brif-ffrydio defnydd o'r iaith Gymraeg a chynnig y cyfle i ddysgwyr ymarfer yr Iaith |
| • Creu neges gyson ar draws y sector, er mwyn hyrwyddo manteision trosglwyddo'r Gymraeg o fewn y teulu ac yn galluogi plant i gaffael yr iaith Gymraeg. |
| • Ymestyn cyfleoedd anffurfiol rheolaidd er mwyn i rieni ddatblygu eu sgiliau iaith Gymraeg er mwyn helpu eu plant i feithrin ac ennill hyder yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg. |
| • Darparu cymorth penodol i fentrau cymunedol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu cynlluniau i hyrwyddo'r iaith Gymraeg. |
| • Grymuso preswylwyr a phobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau yn Gymraeg pan fydd y gwasanaeth ar gael. |

| Statws Blaenoriaethu | | |
|---|---|---|
| **Tymor Byr: 1-2 flwyddyn** | **Tymor Canolig: 2-3 blwyddyn** | **Hirdymor: 3-4 blwyddyn** |

| Gweithred | | Statws |
|---|---|---|
| 3.1 | Hyrwyddo argaeledd gwasanaethau dwyieithog trwy sicrhau bod siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ar draws y partneriaid allweddol yn gwisgo llinynnau gwddf neu bathodyn priodol sy'n dangos eu sgil ac i annog y cyhoedd i siarad Cymraeg wrth dderbyn gwasanaeth. | |
| 3.2 | Annog a chefnogi busnesau lleol i ddefnyddio mwy o Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys dosbarthu arwyddion, bathodynnau neu linynnau Iaith Gwaith er mwyn annog siaradwyr a dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio’r Iaith wrth dderbyn gwasanaeth. Mewn partneriaeth a ymgyrch Llywodraeth Cymru - “Helo Blod” | |
| 3.3 | Creu adnodd sy'n rhestru'r holl fusnesau a gwasanaethau sydd ar gael yn lleol trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar draws bywyd cymunedol, gan gynnwys gwasanaethau’r cyngor. Mewn partneriaeth a ymgyrch Llywodraeth Cymru - “Helo Blod” | |
| 3.4 | Y cyngor a’r partneriaid allweddol i gefnogi a hyrwyddo datblygiad Torf-hwyl, gŵyl flynyddol Menter Iaith BGTM, sy’n dathlu’r Gymraeg a threftadaeth lleol. | |
| 3.5 | Sicrhau bod rhaglenni digwyddiadau cymunedol yn cynnwys gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg a datblygu cyfleoedd lle bo angen. Sicrhau fod digwyddiadau diwylliant Cymreig yn cael eu hysbysebu a’u hyrwyddo’n amserol. | |
| 3.6 | Datblygu Cymunedau Dwyieithog Cyfeillgar - cysylltu ag ysgolion, llyfrgelloedd, busnesau lleol a Helo Blod. | |
| 3.7 | Hyrwyddo addysg Gymraeg a gweithgareddau iaith Gymraeg gyda phobl o grwpiau gwarchodedig, megis cymunedau lleiafrifoedd ethnig ac anabledd. Hyrwyddo cyrsiau Cymraeg i ffoaduriaid | |
| 3.8 | Gweithio’n rhanbarthol i godi ymwybyddiaeth rhieni o gyfleoedd i ddysgu Cymraeg a sefydliadau partner i gefnogi eu cynnydd gyda chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd. Datblygu Pecyn gwybodaeth i rieni sy’n anfon eu plant i ysgol Gymraeg am y tro cyntaf. | |

## Targed Strategol 4 – Gwasanaethau

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Gweledigaeth** | Hyrwyddo a gwella argaeledd gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym mwrdeistref sirol Torfaen. | **Canlyniad** | - Mwy o wasanaethau cyfrwng Cymraeg ar gael i'r cyhoedd.<br>- Mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>- Partneriaid allweddol Cymraeg wedi'u cynnwys mewn cyfeiriaduron, grwpiau cymunedol a gwirfoddol. |

| Dangosyddion | Llinell Sylfaen |
|---|---|
| - Canran a'r nifer o staff sy'n gallu darparu gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd yn unol â Safonau 127 a 151.<br>- Canran o swyddi yn cael eu hysbysebu gyda anghenion sgiliau Cymraeg Hanfodol/Dymunol/Angen Dysgu<br>- Nifer y cwynion a dderbyniwyd, a'r canlyniadau iddynt, o ran argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn unol â Safon 147. | |

| Blaenoriaethau Strategol |
|---|
| • Y Safonau iaith perthnasol yn cael eu gweithredu. |
| • Uwch reolwyr y cyngor yn dangos ymrwymiad cryf i'r iaith Gymraeg mewn trefniadau cydweithio a chontractau a dogfennau comisiynu 3ydd parti. |
| • Dosbarthiadau Cymraeg ar gael i staff y cyngor a partneriaid . |

| Statws Blaenoriaethu | | |
|---|---|---|
| **Tymor Byr: 1-2 flwyddyn** | **Tymor Canolig: 2-3 blwyddyn** | **Hirdymor: 3-4 blwyddyn** |

| Gweithred | | Statws |
|---|---|---|
| 4.1 | Annog pob maes gwasanaeth o fewn y cyngor a partneriaid i ddefnyddio llinynau gwddf neu bathodynnau Iaith. | |
| 4.2 | Hyrwyddo’r gwasanaeth (Safon 68) er mwyn hysbysu defnyddwyr gwasanaethau bod gwasanaeth Cymareg ar gael. | |
| 4.3 | Gwella’r gwasanaeth Cymraeg yn dilyn adborth neu gwynion. | |
| 4.4 | Ystyried y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni hyn lle bo angen wrth gynllunio gweithgareddau | |
| 4.5 | Pob maes gwasanaeth y cyngor i logio/cofnodi manylion pan fydd aelod o'r cyhoedd yn nodi ei fod yn dymuno i'w holl alwadau ffôn gael eu cynnal trwy gyfrwng Cymraeg (Safon 21). | |
| 4.6 | Codi ymwybyddiaeth o wasanaethau cyfrwng Cymraeg er mwyn cwrdd â gofynion y cynnig cadarnhaol a chodi ymwybyddiaeth o'r gallu i gysylltu â'r awdurdod lleol yn Gymraeg dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu drwy gyfathrebiaeth ysgrifenedig. | |
| 4.7 | Ymchwilio i bartneriaeth rhanbarthol rhwng meysydd gwasanaeth y cyngor a sefydliadau partner i ddarparu gwasanaethau dwyieithog | |
| 4.8 | Partneriaid allweddol a'r cyngor i weithio gyda'i gilydd i hyrwyddo gwerth y Gymraeg. | |
| 4.9 | Annog busnesau a'r sector gwirfoddol i ddefnyddio bathodynnau neu llinynnau gwddf Iaith Gwaith ac i ddatblygu delwedd ddwyieithog. | |
| 4.10 | Gweithio’n rhanbarthol i ddatblygu ymgyrch ar y cyd i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg presennol yr holl partneriaid allweddol e.e. llinellau ffôn, peiriannau hunanwasanaeth ac ati. | |
| 4.11 | Creu adnodd sy'n rhestru'r holl fusnesau a gwasanaethau sydd ar gael yn lleol trwy gyfrwng Cymraeg er mwyn tynnu sylw at gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith ar draws bywyd cymunedol, gan gynnwys wasanaethau’r cyngor. Mewn partneriaeth a ymgyrch Llywodraeth Cymru - “Helo Blod” | |

## Targed Strategol 5 – Y Gweithle

| **Gweledigaeth** | Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. | **Canlyniad** | Nifer a chanran uchel o'r gweithlu yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. |
|---|---|---|---|

| **Dangosyddion** | **Llinell Sylfaen** | |
|---|---|---|
| - Canran a nifer o staff a gyflogir gan bartneriaid a'r Cyngor sy'n defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.<br>- Canran a nifer o staff sy'n dysgu Cymraeg..<br>- Canran o swyddi yn cael eu hysbysebu gyda anghenion sgiliau Cymraeg Hanfodol/Dymunol/Angen Dysgu | | |

| **Blaenoriaethau Strategol** |
|---|
| • Cynyddu sgiliau ac ymwybyddiaeth iaith Gymraeg ymhlith rheolwyr. |
| • Cynyddu'r wybodaeth am sgiliau ieithyddol y staff sy'n gweithio o fewn y cyngor a sefydliadau partneriaid. |
| • Cynyddu cydnabyddiaeth bod y Gymraeg yn sgìl gwerthfawr yn y gweithle. |
| • Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg fel sgìl wrth recriwtio, ymhlith y rhai sy'n gyfrifol am swyddi a chyflogaeth. |
| • Galluogi a chefnogi staff rhugl a staff sy'n dysgu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. |
| • Cydymffurfiaeth gan Gwasanaethau a Gomisiynwyd a Darpariaeth Trydydd Parti Annibynol. |

| **Statws Blaenoriaethu** | | |
|---|---|---|
| **Tymor Byr: 1-2 flwyddyn** | **Tymor Canolig: 2-3 blwyddyn** | **Hirdymor: 3-4 blwyddyn** |

| Gweithred | | Statws |
|---|---|---|
| 5.1 | Cefnogi ac annog staff y cyngor sy'n siarad i ddefnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle.<br>Datblygu grŵp staff yr Iaith Gymraeg i gefnogi hyn, gweithio mewn partneriaeth. | |
| 5.2 | Sicrhau bod y systemau AD y cyngor yn cynnwys categorïau iaith Gymraeg. | |
| 5.3 | Partneriaid allweddol i fonitro :<br>- Nifer y swyddi Cymraeg hanfodol<br>- Natur y swyddi<br>- Sut maen nhw'n cael eu llenwi ar hyn o bryd. | |
| 5.4 | Sefydliadau partner i fonitro faint ohonynt sy'n darparu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg i staff ar hyn o bryd a sut y darperir yr hyfforddiant hwnnw. | |
| 5.5 | Gan ddefnyddio'r data a gasglwyd o gamau gweithredu 5.3 a 5.4, Gweithio gyda partneriaid allweddol sy'n rhedeg ffair swyddi i sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei hadnabod fe sgil yn y gweithle. Creu sesiynau cyfweld ffug a chodi ymwybyddiaeth o wefannau swyddi Cymraeg gwag. Datblygu fideo sy'n hyrwyddo gyrfaoedd a gweithio drwy'r Gymraeg. | |
| 5.6 | Sicrhau fod hyfforddiant priodol ar gael i staff ddysgu Cymraeg o'r lefel sylfaenol i lefel uwch / hyfedredd. | |
| 5.7 | Sicrhau fod hyrwyddo'r Gymraeg yn amcan cydnabyddedig i reolwyr fel eu bod yn gallu darparu tystiolaeth o'r gwaith a wneir i gynyddu staff sy'n siarad Cymraeg a hyrwyddo gwasanaethau cyfrwng Cymraeg | |
| 5.8 | Hyrwyddo'r cyfleoedd i ddilyn gyrfa trwy gyfrwng y Gymraeg fel partneriaeth o sefydliadau. | |
| 5.9 | Yr holl bartneriaid allweddol i gynnal archwiliad sgiliau ieithyddol o'u staff i ddeall pa allu sy'n bodoli. Cydnabod cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth pe bai unrhyw fylchau yn cael eu nodi. | |
| 5.10 | Gweithio'n rhanbarthol i ddatblygu canllaw arfer da ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol e.e. cyfarchion dwyieithog ar ddechrau cyfarfodydd ac ati. | |
| 5.11 | Sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei chynnwys fel rhan o unrhyw broses anwytho ar gyfer staff Newydd. | |
| 5.12 | Datblygu Strategaeth Sgiliau Ieithyddol i gefnogi ymrwymiad y cyngor i'r Gymraeg ac at weithredu'r Safonau. | |